



Cyngor Sir Penfro

Cynllun Datblygu Lleol

Adroddiad Monitro Blynnyddol – blwyddyn 12

1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025

This item is also available in English / Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd

Cynnwys

Crynodeb	3
Casgliadau Allweddol	5
Atodiad 1 – Fframwaith Monitro'r CDLL	10
Amcan Strategol: Lliniaru ac Ymateb i Her Newid yn yr Hinsawdd (A)	12
Amcan Strategol: Gwella Mynediad at Nwyddau a Gwasanaethau (I)	14
Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygu sy'n gysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd (E)	18
Amcan Strategol: Cefnogi datblygu rôl unigryw trefi Sir Benfro, yn enwedig o fewn Hyb Aberdaugleddau (F) ac adfywio canol trefi a chynnal a gwella'r economi wledig a threfol (G)	21
Amcan Strategol: Datblygu economi ymwelwyr o safon wedi'i seilio ar ymdeimlad penodol o le ac amgylchedd naturiol ac adeiledig eithriadol (H)	25
Amcan Strategol: Cynnal a Gwella'r Economi Wledig a Threfol (C)	26
Amcan Strategol: Datblygu cymunedau bywiog sy'n darparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gwasanaethau lleol (D)	30
Amcan Strategol: Cyflawni rhagoriaeth dylunio ac ansawdd amgylcheddol (B) a diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (J)	41
Atodiad 2 – Tai Cronnus a Gwblhawyd a Thaflwybr Tai	46
Atodiad 3 – Fframwaith Monitro Arfarnu Cynaliadwyedd	65
Atodiad 4 – Dyraniadau y mae gofyn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel prosiect arnynt	83
Atodiad 5 – Dadansoddiad o'r Tai a Gwblhawyd 2013-2025 yn ôl Lleoliad	86
Atodiad 6 – Adborth gan Randdeiliaid	91

1. Mabwysiadodd Cyngor Sir Penfro ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLL) ym mis Chwefror 2013. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB) ar ei CDLL bob blwyddyn, gyda mewnbwn Rhanddeiliaid, a chyflwyno hwn i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref. Mae'r AMB yn seiliedig ar y targedau a'r sbardunau a nodir yn Atodiad 5 o'r CDLL – mae'r rhain yn asesu sut mae'r Cynllun yn gweithio ac a oes unrhyw feysydd sy'n peri pryder y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach.
2. Oedwyd Adolygiad y CDLL, oherwydd pandemig Covid-19 i ddechrau, ac wedi hynny er mwyn ystyried goblygiadau'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ionawr 2021, gyda'r canllawiau hyn yn cyfeirio at lygredd ffosffadau yn rhannau nad ydynt yn llanwol o afonydd gwarchodedig Cymru, gan gynnwys dalgylchoedd afonydd y Teifi a'r Cleddau yn Sir Benfro. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu diwygio ers hynny ar sawl achlysur i gwmpasu materion llygredd maethynnau eraill ac i ymestyn ardal ofodol y cymhwyso, gyda goblygiadau sylweddol i broses y Cynllun, ond mae ffyrdd yn cael eu nodi i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn y Cynllun newydd sy'n dod i'r amlwg (CDLL 2).
3. Er ei bod y tu allan i gyfnod monitro blwyddyn 12, ym mis Mehefin 2025 cyhoeddodd CNC adroddiadau newydd am iechyd ardaloedd morol gwarchodedig yn Sir Benfro a'r cyffiniau. Mae'r dynodiadau hyn yn bwysig iawn, gan eu bod yn diogelu bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae'r ffocws pryder wedi ehangu mewn cwmpas ac mae bellach yn mynd i'r afael â llygredd maethynnau yn gyffredinol, ac nid llygredd ffosffadau yn unig, gyda phryderon ynghylch lefelau Nitrogen Anorganig Tawdd (NAT) ac mewn perthynas â dangosyddion biolegol amrywiol sydd wedi dod i'r amlwg. Y lefelau NAT sy'n achosi pryder penodol mewn rhannau o ACA Morol Sir Benfro. Cynorthwywyd cynnydd gyda'r adolygiad o CDLL CSP gan yr adolygiad o Drwyddedau Amgylcheddol mewn Gwaith Trin Dŵr Gwastraff gan CNC a chan gynigion buddsoddi newydd gan Dŵr Cymru Welsh Water, er y bydd angen atebion tymor hwy o hyd. O ran NAT, mae CNC bellach yn ei gwneud yn ofynnol dangos niwtraliaeth maethynnau ar gyfer cynigion datblygu sy'n draenio i Gorff Dŵr Mewnol Aberdaugleddau ACA Morol Sir Benfro, sy'n effeithio ar sawl rhan o ardal gynllunio CSP ac mae'n debygol y bydd angen atebion gwahanol i'r rhai sy'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r mater ffosffadau.
4. Yn ystod cyfnod monitro blwyddyn 12, cymeradwywyd Cynllun Adnau 2, CDLL 2, mewn cyfarfod Cyngor Eithriadol ar 13 Medi 2024 a bu ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar ei gynnwys rhwng 21 Hydref 2024 a 16 Rhagfyr 2024. Cymeradwyodd y Cyngor hefyd nifer o 'Newidiadau â Chanolbwynt' cyfyngedig arfaethedig ar gyfer CDLL 2, yn dilyn yr ymgynghori ar y Cynllun Adnau. Roedd y Newidiadau â Chanolbwynt yn destun ymgynghoriad cyhoeddus pellach rhwng 4 Awst a 15 Medi 2025 (y tu hwnt i Gyfnod Monitro blwyddyn 12). Mae CDLL2 bellach wedi'i Gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae Archwiliad annibynnol ohono wedi dechrau.

5. Mae'r tueddiadau a'r wybodaeth fonitro yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol wedi cael eu hystyried gan yr Awdurdod, a lle bo'n briodol maent wedi'u hadlewyrchu yn nogfen Cynllun Adnau 2, CDLI 2 (a'r Newidiadau â Chanolbwynt dilynol), ac mae'n bosibl y bydd y wybodaeth ychwanegol yn yr Adroddiad hwn ar gael i lywio trafodaethau yn y cam Archwilio.
6. Cynhaliwyd yr Arolwg Cyflogaeth yn fwyaf diweddar yn 2022 – cwblhawyd prosesu canlyniadau arolwg 2022 yn ystod 2025 ac mae'r canlyniadau wedi'u cyhoeddi ar wefan CSP (ac yn cael eu defnyddio yn yr AMB diweddaraf hwn). Cynhaliwyd Arolygon Tai Llawn, gan ddefnyddio cofnodion Rheoli Adeiladu ac ymweliadau safle, yn 2022, 2023, 2024 a 2025 (gyda'r canlyniadau'n llywio'r AMB cyfatebol). Cynhaliwyd yr Arolwg Manwerthu diwethaf a gwblhawyd yn Hydref 2023 ac mae wedi'i gyhoeddi ar wefan CSP. Dechreuwyd Arolwg Manwerthu pellach yn Hydref 2025, a bydd y canlyniadau sy'n deillio ohono yn llywio AMB nesaf y CDLI.
7. Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwaith ar un eitem arall o Ganllawiau Cynllunio Atodol yn ystod cyfnod monitro blwyddyn 12. Mae hyn yn ymwneud â'r Asesiad Cymeriad Tirwedd Carafannau, Gwersylla a Chalets i gefnogi CDLI2. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar hyn yn hydref 2024. Rhaid i waith pellach aros nawr tan fabwysiadu CDLI 2.

Casgliadau Allweddol

- TAI

- Mae cyfrannau'r caniatâd tai a roddwyd yn is na'r canrannau targed ar gyfer cymeradwyaeth mewn Trefi Hyb. Mae hyn bellach wedi cwrdd â sbardun 3 blynedd ar gyfer adolygiad sef 39% yn 2022-2023, 38.2% yn 2021-2022 a 25.6% yn 2020-2021. Mae'r ffigur hwn wedi adfer i 50% yn AMB 2023-2024 a 56.6% yn AMB 2024-25 ond mae islaw'r trothwy 60% o hyd. Cafwyd gostyngiad sylweddol hefyd yn nifer yr unedau preswyl newydd sy'n cael caniatâd cynllunio yn gyffredinol ers AMB 2020-2021. Golyga hyn y gall ychydig o safleoedd bellach gael dylanwad mawr ar ganran yr unedau preswyl sy'n cael eu caniatáu ar wahanol lefelau'r hierarchaeth aneddiadau.
- Adeiladwyd 352 o gartrefi yn 2024-2025, o gymharu â 283 o gartrefi yn 2023-2024, 367 o gartrefi yn 2022-2023 a 338 yn 2021-2022. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na ffigur 2019-2020 (267) ond yn is na lefelau 2018-2019 (419). Y gyfradd adeiladu gyfartalog 10 mlynedd 2009-2019 (cyn Covid) oedd 379 y flwyddyn, ac felly mae'r arolwg diweddaraf yn awgrymu bod adeiladu tai yn 2024/25 yn nesáu at, ond o hyd yn is na'r cyfartaledd hanesyddol cyn Covid.
- Mae AMB 2024-2025 wedi nodi rhai newidiadau mewn perthynas â'r safleoedd tai strategol. Fel yr adroddwyd yn yr AMB blaenorol, mae Slade Lane South a'r rhan fwyaf o Slade Lane North wedi newid perchnogaeth; y perchnogion newydd yw Pobl a Llywodraeth Cymru ar safle'r De a Llywodraeth Cymru yn unig ar safle'r Gogledd (ac eithrio'r ardal lai o faint sy'n eiddo ar wahân i Hill West Ltd). Mae Pobl yn bwrw ymlaen â chamau 1 a 2 y datblygiad tai ar safle'r De, gyda cham 1 yn cael caniatâd Materion a Gadwyd yn Ôl a'r gwaith adeiladu bellach wedi dechrau. Disgwylir cais cynllunio Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer cam 2 yn fuan. Cwblhawyd elfen fechan o safle Slade Lane North gan Hill West Ltd, ond mae gweddill y safle'n disgwyl cael ei ddatblygu. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi ymgynghoriaeth Lichfields i baratoi Uwchgynllun ar gyfer camau diweddarach datblygiad Slade Lane.
- Ym Maesgwynne, mae'r rhan o'r safle a elwir yn Parc Loktudi wedi'i datblygu, ond roedd rhannau eraill o'r safle tan yn ddiweddar heb eu datblygu. Fodd bynnag, yn ystod AMB blwyddyn 10 rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddatblygu 50 o gartrefi ar dir ger Clos-y-Bigney, sef cynnig tai fforddiadwy 100% sy'n cael ei ddatblygu gan Gymdeithas Tai Wales & West. Dechreuwyd datblygu'r elfen bellach hon o safle Maesgwynne yn 2023-2024, gyda 14 o anheddau wedi'u cwblhau a 36 arall yn cael eu hadeiladu. Erbyn diwedd cyfnod monitro 2024-25, roedd pob un o'r 50 annedd wedi'u cwblhau. Mae Cynllun Adnau 2, CDLI 2 yn cynnwys dyraniad preswyl mawr ym Maesgwynne, y disgwylir i rai elfennau ohono gael eu cwblhau yn ystod cyfnod Cynllun CDLI 2 (hyd at 2033) a disgwylir i'r gweddill gael ei adeiladu ar ôl y dyddiad hwnnw.
- Mae safle Shoals Hook Lane yn Hwlfordd wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl gan y CDLI presennol ond nid oes ganddo ganiatâd cynllunio tai ac mae wedi'i ddad-ddyrannu gan y CDLI 2 sy'n dod i'r amlwg - oherwydd diffyg cynnydd tuag at gyflawni (er bod cynnig i'w gadw o fewn ffin anheddiad Hwlfordd).

- Cyrhaeddwyd y targedau ar gyfer tai fforddiadwy o ran caniatâd a roddwyd ac anheddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Ni chyrhaeddwyd y targed o 98 annedd y flwyddyn ar gyfer nifer yr anheddau fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio yn 2023-2024, ond rhagorwyd ar y targed yn rhwydd yn 2024-2025, gyda 140 o anheddau fforddiadwy ychwanegol yn derbyn caniatâd cynllunio. Cwblhawyd 128 o anheddau fforddiadwy yn ystod cyfnod monitro blwyddyn 12, allan o gyfanswm o 352 o anheddau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro hwnnw, pob un gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Yn AMB blwyddyn 12 (2024-25), roedd 96.6% o'r caniatadau a roddwyd ar gyfer tai o fewn Ffiniau Anheddiad, sydd ychydig yn is na'r targed o 98%. Yn y cyfnod 4 blynedd blaenorol, fe wnaeth cofnodi'r ffigurau hyn yn 91.1% (2020/21), 93.0% (2021/22), 90.0% (2022/23) ac 87.2% (2023/24) sbarduno ymchwiliad pellach. Felly, mae canlyniad monitro 2024/25 yn cynrychioli gwelliant nodedig.
- **CYTUNDEBAU CYFREITHIOL ADRAN 106**
 - Sicrhawyd cyfraniadau ariannol gwerth £169,366.47 tuag at dai fforddiadwy drwy gytundebau cyfreithiol adran 106 yn ystod cyfnod monitro AMB blwyddyn 12 (2024-25), gyda dadansoddiad llawn o hyn wedi'i gyflwyno ar wefan y Cyngor.
<https://www.sir-benfro.gov.uk/y-cynllun-datblygu-lleol-ar-ol-adroddiad-yr-arolygydd/cytundebau-adran-106>
- **LLETY SIPSIWN A THEITHWYR**
 - Mae'r Awdurdod wedi cyrraedd y targedau rhifiadol a nodwyd ar gyfer darparu llety Sipsiwn a Theithwyr, fel y nodir yn y Cynllun. Cyflwynwyd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd i Lywodraeth Cymru yn hydref 2019, gyda diwygiadau iddo yn 2020 a 2024 ac fe'i cymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder ar 24 Mai 2024. Mae canlyniadau hyn yn llywio darpariaethau'r CDLL 2 sy'n dod i'r amlwg.
- **CYFLOGAETH**
 - Cyrhaeddwyd sbardunau mewn perthynas â'r dyraniadau Cyflogaeth Strategol, heb unrhyw ddatblygu eto ar Safleoedd Allweddol yn Blackbridge a Threcŵn. Ond, mae rhywfaint o gynnydd wedi bod ar safleoedd Parc Busnes Llwynhelyg a Pharc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro. Mae asesiad o'r angen am Safleoedd Cyflogaeth Strategol ar gyfer Adolygiad y CDLL wedi'i nodi yn yr Astudiaeth Economaidd Dwy Sir wedi'i diweddarau (2022) ac mae hyn yn dangos ymhlith pethau eraill, angen hirdymor parhaus am safleoedd strategol. Mae prosesu canlyniadau Arolwg Cyflogaeth 2022 wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi, gyda'r canlyniadau wedi'u hymgorffori yn yr AMB diweddaraf hwn.
- **TRAFNIDIAETH**
 - Mae Cynllun Gwella Cefnffordd yr A40, Ffordd Osgoi Llanddewi Felffre a Redstone Cross, Llywodraeth Cymru wedi'i gwblhau ac wedi'i agor, gan nodi bod hyn ychydig y tu hwnt i gyfnod monitro Blwyddyn 12. Bydd hyn yn dwyn buddion i draffig ffyrdd sy'n defnyddio Porthladd Abergwaun a hefyd Tref Sirol Hwlfordd ac aneddiadau eraill yn agos at goridor ffordd yr A40, ac yn cymryd traffig strategol allan o bentref Llanddewi Felffre.

- **PERYGL LLIFOGYDD**
 - Dengys y canlyniadau ar gyfer AMB blwyddyn 12 mewn perthynas â pherygl llifogydd fod pob cais a gymeradwywyd yn cydymffurfio â gofynion TAN 15 / polisi GN.1 y CDLL (maen prawf 7). Cyhoeddwyd argraffiad newydd o TAN 15 yn 2025, ac mae Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio sy'n gysylltiedig â hyn yn disodli'r Mapiau Cyngor Datblygu. Defnyddir categorieiddio gwahanol o berygl llifogydd gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ac mae hefyd yn cyflwyno gwybodaeth wedi'i diweddarau am berygl llifogydd o'i gymharu â'r Map Cyngor Datblygu blaenorol. Mae hyn wedi'i ystyried wrth baratoi'r argraffiad diweddaraf hwn o AMB y CDLL.
- **MANWERTHU**
 - Nododd Arolwg Manwerthu 2023 lefelau gwacter uwch na chyfartaledd y DU ym mhob Canol Tref CSP, ar wahân i Arberth a Marina Aberdaugleddau. Bu gostyngiad yn y cyfraddau gwacter o 30% i 21% yn Aberdaugleddau ac o 5% i 3% yn Arberth. Arhosodd y cyfraddau yr un fath yn Noc Penfro (19%) ac Abergwaun (17%). Bu cynnydd yn y cyfraddau gwacter yn Hwlfordd (21% i 25%) a Phenfro (15% i 20%). Mae gwaith a ariennir gan y Rhaglen Trawsnewid Trefi i atal dirywiad canol trefi ar y gweill yn Hwlfordd, Abergwaun, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro.
 - Dangosodd Arolwg Manwerthu 2023 hefyd fod canran y ffyrtiad manwerthu cynradd mewn defnydd A1 wedi gostwng yn is na'r targed o 66% yn Abergwaun, Arberth a Phenfro. Pan ystyrir cyfraddau gwacter, mae pob canolfan ar wahân i Aberdaugleddau a Marina Aberdaugleddau yn disgyn yn is na'r targed. Mae'r Cyngor yn ailystyried rôl ac effeithiolrwydd ffyrtiadau cynradd ac eilaidd fel rhan o adolygiad y CDLL. Mae ffiniau Canol Trefi hefyd yn cael eu hail-werthuso. Cyflwynwyd canlyniadau cychwynnol y gwaith hwnnw yng Nghynllun Adnau 2, CDLL 2, a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori yn hydref 2024.
 - Ni chynhaliwyd Arolwg Manwerthu yn ystod cyfnod AMB blwyddyn 12, gan fod blaenoriaethu bwrw ymlaen â'r CDLL 2. Fodd bynnag, dechreuwyd arolwg newydd yn hydref 2025, a bydd y canlyniadau sy'n deillio ohono yn llywio'r AMB nesaf.
 - Nid oedd unrhyw gynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu mawr yn yng nghyfnod monitro AMB blwyddyn 12. Roedd un cais a ganiatawyd ar gyfer ehangu siop bresennol ar gyrion y dref yn yr un cyfnod monitro.
- **DATBLYGU CEFN GWLAD**
 - Mae nifer y ceisiadau a gafodd ganiatâd cynllunio yn groes i Bolisi SP 16 (Cefn Gwlad) yn cael ei fonitro bob blwyddyn. Yn ystod y ddau gyfnod monitro diwethaf mae cyfanswm o 15 caniatâd cynllunio o'r fath wedi'i gofnodi (8 yn 2023/24 a 7 arall yn 2024/25). Mae sbardun monitro wedi'i actifadu oherwydd bod mwy na 4 caniatâd o'r fath wedi'u nodi mewn cyfnod o 4 blynedd. Mae'r rhesymau dros roi caniatâd yn amrywiol, ond mae pob un a gofnodwyd yn groes i'r polisi strategol ar gyfer cefn gwlad. Ymhlith y rhain y mae rhai sy'n ymwneud â chaniatâd cynharach a roddwyd o dan Gynllun Datblygu blaenorol a rhai sy'n ymwneud ag unioni'r sefyllfa gynllunio mewn perthynas ag anheddau ag amodau meddiannaeth sydd eisoes wedi cael Tystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer meddiannaeth ddirwystr.

- Canlyniad parhau â chaniatáu ceisiadau mewn lleoliadau cefn gwlad sy'n groes i'r polisi strategol ar ddatblygu cefn gwlad yw erydu graddol cefn gwlad a thanseilio polisïau sydd wedi'u bwriadu i atal datblygu amhriodol y tu allan i aneddiadau. Bydd angen sicrhau bod monitro gofalus o'r polisi tebyg wedi'i ymgorffori yn y CDLI 2 sy'n dod i'r amlwg ac efallai y bydd angen camau pellach os bydd y duedd yn parhau.
- **ARFARNIAD CYNALIADWYEDD**
 - Mae'r Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd wedi'u hasesu, a'r wybodaeth hon wedi'i nodi yn Atodiad 3 i'r ddogfen hon. Yn y cyfnod hwn yn oes y Cynllun presennol, mae'r canlyniadau monitro yn tynnu sylw'n bennaf at feysydd y gellir eu gwella trwy ddatblygu'r Cynllun newydd.
 - Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd wedi'i diweddaru i gyfeirio at CNC yn cyhoeddi ym mis Mehefin 2025 y Cyngor Cadwraeth ac Asesiadau Cyflwr Rheoliad 37 wedi'i ddiweddaru ar gyfer ACA Morol allweddol sy'n effeithio ar Sir Benfro, sef ACA Morol Sir Benfro, ACA Bae ac Aberau Caerfyrddin ac ACA Bae Ceredigion. Digwyddodd hyn yng nghyfnod monitro blwyddyn 13 ond mae'n fater o arwyddocâd mawr yng nghyd-destun cynllunio defnydd tir, ac oherwydd hynny mae wedi'i gynnwys yn yr AMB hwn.
- **ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD**
 - Mae Monitro Asesu Rheoliadau Cynefinoedd (Atodiad 4) yn dangos bod fod y sgrinio ARhC, a'r Asesiad Priodol dilynol lle bo angen, wedi digwydd ar nifer o gynigion lefel brosiect a gyflwynwyd yn ystod cyfnod monitro AMB blwyddyn 12. Caiff pob cais cynllunio ei sgrinio am ei effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd gwarchodedig. Mae cyhoeddi canllawiau newydd gan CNC ar ffosffadau yn y rhannau nad ydynt yn llanwol o ACA afonol ym mis Ionawr 2021 wedi cael effaith sylweddol ar allu datblygwyr i gyflwyno ystod o gynigion datblygu newydd (yn bennaf, ond nid yn unig ar gyfer tai) yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt. Mae'r canllawiau wedi cael eu diweddaru ar sawl achlysur wedi hynny ac maent bellach wedi'u hehangu i gwmpasu llygredd maethynnau yn gyffredinol a chwmpasu pryderon sy'n dod i'r amlwg mewn gwahanol ACA Morol (llanwol), yn ogystal â'r rhai Afonol (nad ydynt yn llanwol).
 - Dim ond tri Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) yn Sir Benfro sy'n cynnig tynnu ffosffadau ar hyn o bryd. Yn ogystal, bydd GTDG Spittal yn gosod gallu tynnu ffosffadau o dan gynllun buddsoddi Cynllunio Rheoli Asedau (AMP) 7 Dŵr Cymru Welsh Water a bydd GTDG Gorllewin Treletert a Chas-blaidd yn cael hwn o dan ffrwd ariannu ar wahân nad yw'n gysylltiedig â'r rhaglen AMP. Mae buddsoddiad pellach o dan AMP 8 yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, a disgwylir y bydd mwy o fanylion ar gael ar gyfer AMB blwyddyn 13.
 - Yn Sir Benfro, yr ardaloedd yr effeithir arnynt gan ganllawiau ffosffadau CNC i ddechrau oedd elfennau Afonol (nad ydynt yn llanwol) dalgylchoedd afonydd Cleddau Wen a Chleddau Ddu a'r rhan o ddalgylch afon Teifi yn y Sir. Fodd bynnag, fel mesur dros dro, mae cwmpas y canllawiau wedi'u ehangu i gwmpasu agweddau eraill ar lygredd maethynnau a gellir eu defnyddio yn rhannau Afonol (nad ydynt yn llanwol) a Morol (llanwol) y dalgylchoedd afonydd hyn.

- O ganlyniad i ganllawiau CNC 2021 a diweddarau ac ehangu eu cynnwys a'u cwmpas daearyddol wedi hynny, mae nifer y ceisiadau sy'n gofyn am Asesiadau Rheoli Cynefinoedd ar lefel brosiect wedi cynyddu'n sylweddol. Mewn perthynas â llygredd ffosffadau (a hefyd mewn rhai achosion ar gyfer amonia), mae rhaglen CNC o adolygu Trwyddedau Amgylcheddol mewn GTDG mewn ardaloedd yr effeithir arnynt yn yr ACA Afonol wedi'i chwblhau ac, yn y rhan fwyaf o achosion mae wedi cadarnhau bod gallu o hyd i dderbyn datblygu pellach mewn GTDG o fewn y terfynau trwyddedau newydd. Mae hyn yn lleddfu'r cyfyngiad yn y tymor byr i'r tymor canolig mewn perthynas â ffosffadau ac amonia, ond yn y tymor hir bydd angen dod o hyd i atebion eraill i ganiatáu i ddatblygu barhau pan gyrhaeddir y terfynau capasiti newydd.
- Ar gyfer Nitrogen Anorganig Tawdd yn ei wahanol ffurfiau (nitradau, nitreidiau ac amonia) yn yr ACA Morol (ac yn benodol yng Nghorff Dŵr Mewnol Aberdaugleddau ACA Morol Sir Benfro) mae'r llwybrau i'r ACA yn aml yn llai cysylltiedig â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y cwmni dŵr ac felly mae'n debygol y bydd gan uwchraddio seilwaith draenio cwmnïau dŵr lai o rôl lai wrth ddatrys y broblem NAT. Felly, bydd angen dod o hyd i atebion eraill i liniaru'r agwedd bellach hon ar lygredd dŵr afonydd.

Atodiad 1 – Fframwaith Monitro'r CDLI

Data Ffynhonnell: Monitro Ceisiadau Cynllunio yn Gyflym oni nodir yn wahanol mewn troednodiadau.

Nid yw rhai mathau o Geisiadau Cynllunio a bennir yn gyffredin gan yr Awdurdod wedi'u cynnwys yn yr AMB gan eu bod yn amhriodol at ddibenion yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:


AG – Hysbysiadau Amaethyddol
TF – Cwmpo Coed
HG - Gwrychoedd
LB – Adeiladau Rhestredig
CA – Ardaloedd Cadwraeth
AD – Hysbysebion
Pr Notf – Hysbysiadau Blaenorol
OHL – Llinellau Uwchben
CLOPUD - Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon Arfaethedig
CLD - Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon
EIA – Asesiad o Effaith Amgylcheddol
HS – Sylweddau Peryglus
DC - Cyflawni Amodau
NMA - Diwygiadau ansylweddol i geisiadau
A73 – Ceisiadau diwygio Adran 73
A73 Ôl-weithredol – Ceisiadau diwygio Adran 73 Ôl-weithredol

Nifer y Ceisiadau Cynllunio a Gymeradwywyd

Blwyddyn	Cymeradwywyd	Gwrthodwyd	Cymeradwywyd yn Rhannol	Cymeradwywyd yn Ddiamed	Cymeradwywyd yn Amodol	Cyfanswm
2013 - 14	665	82				749
2014 - 15	785	74				859
2015 - 16	614	67				681
2016 - 17	589	52				641
2017 - 18	554	85				639
2018 - 19	564	85				649
2019 - 20	715	76	68			859
2020 - 21	495	51				546
2021 - 22		97	3	2	626	728
2022 - 23		123	77	44	643	887
2023 - 24		134	83	36	569	822
2024 - 25		139	75	43	628	885
Cyfanswm						8945

*Nid yw'n cynnwys Trin Coed, Datblygu Amaethyddol, Adran 73 na Chaniatâd Adeiladau Rhestredig

Nifer y Ceisiadau Cynllunio a Gymeradwywyd



Approved – Cymeradwywyd

Refused – Gwrthodwyd

Approved in Part – Wedi'i gymeradwyo'n rhannol

Unconditionally Approved – Wedi'i gymeradwyo'n ddiamod

Conditionally Approved – Wedi'i gymeradwyo'n amodol

Amcan Strategol: Lliniaru ac Ymateb i Her Newid yn yr Hinsawdd (A)

Dangosydd 1: Swm y Datblygu a Ganiatawyd mewn Ardaloedd Gorlifdir C1 a C2 nad ydynt yn bodloni pob Prawf TAN 15

Targed: Mae datblygu ym mharthau C1 a C2 yn unol â darpariaethau TAN 15

Sbardun: Mwy nag 1 gymeradwyaeth o fewn 1 blwyddyn yn groes i ddarpariaethau TAN 15

<i>Blwyddyn</i>	<i>Nifer y cymeradwyaethau cynllunio</i>	<i>C1 (Ha)</i>	<i>C2 (Ha)</i>
2013 - 14	5		
2014 - 15	0		
2015 - 16	0		
2016 - 17	0		
2017 - 18	0		
2018 - 19		0.29	0.48
2019 - 20		0.05	5.9*
2020 - 21	1		
2021 - 22	0		
2022 - 23	1		
2023 - 24	1		
2024 - 25	0		

*0.25 ha wedi'i gynnwys yng nghynigion ailddatblygu Marina Aberdaugleddau

Sylwadau

Ym mlynnyddoedd 1 i 5 roedd pob cais mewn parth llifogydd yn bodloni gofynion TAN15 (Polisi GN 1, Maen prawf 7). Yn AMB blwyddyn 6 a 7 roedd y dull adrodd yn amrywio i adlewyrchu gofynion Mentrau Datblygu Strategol (SDI), gan ddychwelyd i'w ffurf gwreiddiol ar gyfer AMB blwyddyn 8. Roedd canlyniadau AMB blwyddyn 8 yn cynnwys un cais mewn gorlifdir a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cynllunio oherwydd ei fod yn groes i TAN 15/Polisi GN 1, ond rhoddwyd mwy o bwyslais i ystyriaethau perthnasol sy'n ymwneud ag adfywio Canol Trefi. Yn AMB blwyddyn 10 rhoddwyd caniatâd i un cais am eiddo preswyl mewn parth C2. Roedd hyn ar gyfer troi 3 llawr uchaf eiddo canol tref yn 3 fflat a rhoddwyd caniatâd iddo oherwydd ei gyfraniad cadarnhaol at adfywio Canol Trefi (Cyfeirnod 21/1003/PA a 21/1024/LB). Yn AMB blwyddyn 11 caniatwyd cais am gynnig defnydd cymysg mewn parth llifogydd C2 yn dilyn cyngor gan CNC y gellid lliniaru'r risg llifogydd.

Ym mlynnyddyn 12 roedd pob cais a gymeradwywyd mewn parth llifogydd yn bodloni gofynion TAN15 (Polisi GN 1, Maen prawf 7).

Rhoddwyd caniatâd i gais 24/0286/PA (Ailwampio ac ymestyn Adeilad Glannau Cei i greu mannau cymunedol amlswyddogaethol ac estyniad i adeilad bar i greu teras ar y llawr cyntaf) yn dilyn argymhellion o fewn Asesiad Canlyniadau Llifogydd (ACLI) cysylltiedig ar gyfer mesurau diogelu rhag llifogydd a chynllun ymateb i lifogydd cadarn gyda gweithdrefn gwacáu ar gyfer yr adeiladau yn ystod digwyddiad (wedi'i sicrhau gan amod wedi'i eirio'n briodol). Yn amodol ar dderbyn manylion derbyniol, ystyriwyd bod y cynnig yn cyd-fynd â'r maen prawf (iv). Cydymffurfio â meini prawf (i), (iii) a (iv) paragraff 6.2 o TAN 15 gan arwain at y cynnig yn cydymffurfio â maen prawf 7 polisi GN.1.

Ym Mhenfro, fe wnaeth cais 23/0257/PA (Gwaith Estyn, Ailwampio a Dymchwel (gan gynnwys toiledau cyhoeddus presennol) i ddarparu Hyb Cymunedol gyda Gwaith Seilwaith Cysylltiedig) dderbyn y byddai rhan o'r datblygiad arfaethedig mewn perygl o lifogydd dros ei hoes. Fe wnaeth yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd (ACLI) gynnig nifer o fesurau lliniaru gan gynnwys nodweddion gwydnwch rhag llifogydd, rhybudd llifogydd a chynllun ymateb i argyfwng ac ystyrir bod y rhain yn ddigonol i sicrhau diogelwch defnyddwyr yr adeiladau a gellir eu sicrhau trwy amod cynllunio.

Yn 2025 cyhoeddwyd y TAN15 diwygiedig gan Lywodraeth Cymru, gyda Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn disodli'r Mapiau Cyngor Datblygu a newidiadau canlyniadol i'r parthau perygl llifogydd.

Amcan Strategol: Gwella Mynediad at Nwyddau a Gwasanaethau (I)

Dangosydd 1: Nifer a chyfran y tai a gafodd ganiatâd cynllunio yn yr Hierarchaeth Aneddiadau

Targed: Mae 60% o'r caniatâd yn y Trefi Hyb

Sbardun: Llai na 50% mewn Trefi Hyb dros gyfnod o 3 blynedd

<i>Blwyddyn</i>	<i>Tref Hyb</i>	<i>Tref Wledig</i>	<i>Canolfan Wasanaeth</i>	<i>Pentref Gwasanaeth</i>	<i>Pentref Lleol Mawr</i>	<i>Pentref Lleol Bach</i>	<i>Cefn Gwlad Agored</i>	<i>Cyfanswm</i>
2013 - 14	1,191 77%	55 3.5%	14 0.9%	165 11%	12 0.8%	15 1%	95 6%	1,533
2014 - 15	790 65.3%	31 2.6%	23 1.9%	303 25%	10 0.8%	15 1%	38 3.1%	1,210
2015 - 16	356 39%	43 5%	98 11%	329 36%	22 2%	10 1%	64 7%	922
2016 - 17	259 37%	27 4%	69 10%	279 40%	9 1%	0 0%	48 7%	691
2017 - 18	317 52%	110 18%	32 5%	117 19%	4 1%	1 0.5%	27 4.5%	608
2018 - 19	149 69.9%	1 0.5%	2 0.9%	24 11.3%	1 0.5%	4 1.9%	32 15%	213
2019 - 20	576 74.5%	1 0.1%	35 4.5%	120 15.4%	3 0.4%	2 0.3%	37 4.8%	774
2020 - 21	55 25.6%	14 6.5%	87 40.5%	38 17.7%	3 1.4%	1 0.4%	17 7.9%	215
2021 - 22	60 38.2%	5 3.2%	3 1.9%	73 46.5%	5 3.2%	0 0%	11 7%	157
2022 - 23	53 39%	1 0.7%	0 0%	68 50%	1 0.7%	1 0.7%	14 10%	138
2023 - 24	56 50.9%	0 0%	4 3.6%	26 23.6%	4 3.6%	0 0%	20 18.2%	110
2024 - 25	207 56.6%	7 2%	63 17.8%	57 16.1%	4 1.1%	3 0.8%	12 3.4%	353
Cyfanswm	4069 58.77%	295 4.26%	430 6.21%	1599 23.09%	78 1.13%	52 0.75%	415 6.0%	6924

Sylwadau

Yn dilyn nifer o flynyddoedd pan gynyddodd nifer y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygu preswyl mewn trefi hyb yn sylweddol, mae'r canlyniadau diweddarach, gan gynnwys y rhain ar gyfer cyfnod monitro'r AMB presennol hwn, yn dangos bod y duedd tuag at dros 50% o ganiatadau yn cael eu rhoi mewn Trefi Hyb wedi parhau gyda chynnydd cyffredinol yn nifer y caniatadau a roddwyd hefyd yn cynyddu. Yn gyffredinol, cyrhaeddwyd y sbardun am 3 blynedd o'r 12 ac mae cyfanswm cyfran y datblygu mewn trefi hyb ers mabwysiadu'r Cynllun dim ond ychydig yn is na'r targed o 60%. Mae graddfa a lleoliad twf yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn llawn wrth baratoi CDLI2.

Dangosydd 3: Newid net yn narpariaeth cyfleusterau cymunedol o ganlyniad i ganiatâd cynllunio (ardal a math)

Targed: Cynnal cyfleusterau allweddol

Sbardun: Colli dros 3 chyfleuster cymunedol o fewn unrhyw gyfnod o 3 blynedd

Blwyddyn	Neuaddau Cymunedol ha	Tai Tafarn ha	Cyfleusterau lechydd ha	Cyfleusterau Addysgol ha	Cyfleus- terau Crefyddol ha	Chwaraeon a Hamdden ha	Siopau Lleol ha	Mannau Agored ha	Eraill ha
2013 - 14	0.39	1.35	1.3	3.91	0.00	0.00	0.00	2.52	0.15
2014 - 15	0.08	0.13	0.04	0.57	0.61	0.00	0.00	0.00	0.17
2015 - 16	0.00	-0.09	0.00	-0.24	-0.53	0.88	0.01	0.00	-0.02
2016 - 17	0.00	0.00	-0.49	1.11	-0.05	0.28	0.00	0.02	0.00
2017 - 18	-0.04	-0.03	0.005	-0.04	-0.03	0.00	0.00	0.00	0.00
2018 - 19	0.13	-0.09	0.00	0.00	-0.22	0.86	0.03	0.00	0.00
2019 - 20	0.13	-0.09	0.00	0.00	-0.22	0.86	0.00	0.00	0.97
2020 - 21	-0.04	-0.09	0.00	0.00	-0.29	0.00	0.00	0.00	0.00
2021 - 22	0.00	0.00	0.00	0.11	0.00	0.05	0.00	0.00	0.00
2022 - 23	0.00	0.04	0.14	0.00	0.00	0.18	0.00	0.00	0.00
2023 - 24	0.00	0.03	0.23	0.02	0.00	4.67	0.00	0.34	0.17
2024 - 25	0.18	0.01	0.00	0.29	0.13	0.00	0.11	0.00	0.00
Cyfanswm (Ha)	0.83	1.16	1.23	5.73	-0.60	7.78	0.15	2.88	1.44

Sylwadau

Mae'r tabl uchod yn dangos ychwanegiadau a cholledion net ystod o gyfleusterau cymunedol ar draws ardal y Cynllun. At ei gilydd, bu cynnydd ym mhob math o gyfleusterau, ac eithrio Cyfleusterau Crefyddol sy'n debygol o adlewyrchu eglwysy a chapeli yn colli eu swyddogaeth grefyddol, gyda rhai yn cael eu hailddefnyddio at ddibenion eraill, gan gynnwys defnyddiau preswyl mewn rhai achosion. Yn ystod cyfnod monitro AMB blwyddyn 12 mae cyfanswm yr arwynebedd a feddiannir gan gyfleusterau cymunedol wedi cynyddu 0.72ha. Ni fu unrhyw ostyngiad sylweddol mewn arwynebedd unrhyw fathau penodol o gyfleusterau, er bod dadansoddiad o geisiadau a gymeradwywyd yn dangos colli siop leol ac eglwys. Fodd bynnag, mae'r rhain yn is na'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 4:	Targed:	Sbardun:
Lefel y gwasanaethau o fewn aneddiadau gwledig	Nid yw gwasanaethau mewn aneddiadau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau yn llawer is nag yn Arolwg Cyfleusterau Gwledig 2008	Monitro yn yr Adolygiad Cynllun (2017) – byddai angen ymchwilio ymhellach i newid o 10% yn nifer yr aneddiadau sy'n cyrraedd lefel Pentref Gwasanaeth

Sylwadau

Nid yw'r sbardun wedi'i gyrraedd. Gweler Papur Cefndir CDLI2 – Adroddiad Arolwg Cyfleusterau Gwledig 2020 gyda chywiriadau yn 2024.

<https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth>

<i>Dangosydd 5: Capasiti (MW) datblygiadau ynni adnewyddadwy a ganiateir</i>	<i>Targed: Dim targed</i> <i>Sbardun: Dim sbardun</i>
Blwyddyn	MW a Ganiateir
2013-14	108.43
2014-15	68.60
2016-16	34.77
2016-17	6.11
2017-18	11.00
2018-19	0.89
2019-20	3.60
2020-21	0.40
2021-22	10.71
2022-23	5.39
2023-24	9.26
2024-25	13.62
Total (ha)	272.78

Sylwadau

Mae'r ffigurau'n dangos bod nifer fach o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn parhau i gael eu caniatáu. Yn ystod cyfnod monitro blwyddyn 12, y prosiect mwyaf a ganiatawyd oedd ar gyfer hyd at 3 tyrbin gwynt i'r de o'r Derfynell LNG yn Waterston (Datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol (DNS) cyfeirnod CAS-0-1859-K1M7Y6). Ers AMB 4 (2016 – 17), bu'r capasiti newydd a ganiatawyd ar raddfa gymharol fach o'i gymharu â blynyddoedd cynnar y CDLL.

Datblygiadau ynni cysylltiedig eraill a gymeradwywyd yn ystod cyfnod AMB blwyddyn 12 yw 3 cais am storio ynni batris a chyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd ar dir ger Gorsaf Bŵer Penfro. Bydd yr hydrogen yn cael ei gynhyrchu at ddibenion diwydiannol, gyda chysylltiad piblinell â Phurfa Olew Valero. Mae pob un o'r prosiectau hyn ar safleoedd ynni mawr presennol ar hyd Dyfrffordd Aberdaugleddau neu'n agos atynt.

Mae prosiectau ynni adnewyddadwy eraill a ganiatawyd ar raddfa fach ac yn bennaf ar gyfer araeau solar ffotofoltaid bach.

<i>Dangosydd 2 y CDLL</i>	<i>Targed</i>	<i>Sbardun</i>
<i>Ardal o dir wedi'i diogelu ar gyfer cynigion trafndiaeth a gollwyd i ddatblygu</i>	<i>0%</i>	<i>Bydd angen ymchwilio i unrhyw golled</i>
Sylwadau Ni chollwyd tir wedi'i ddiogelu ar gyfer cynigion trafndiaeth ers mabwysiadu'r CDLL yn 2013, ac eithrio mân effaith o ganlyniad i ganiatâd cynllunio a roddwyd i adfywio Marina Aberdaugleddau (cyfeirnod 14/0158/PA, a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2019) sy'n effeithio ychydig ar gynnig cyfnewidfa bysiau/trenau Aberdaugleddau, ond na fydd yn atal nac yn peryglu ei gweithredu. Mae nifer o'r cynlluniau a ddiogelwyd bellach wedi'u hadeiladu, neu wedi'u gweithredu'n rhannol. Mae gan eraill ganiatâd cynllunio ond maent yn aros i gael eu hadeiladu, a rhai o'r rhain yn cael eu cyflwyno fel elfennau o gynlluniau adfywio sy'n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau tir. Mae Gwelliant Redstone Cross a Ffordd Osgoi Llanddewi Felfre cefnffordd A40 Llywodraeth Cymru wedi'i gwblhau a'i agor.		

Dangosydd 6: Maint y man agored (m²) a ganiatawyd mewn perthynas â chyfanswm nifer yr anheddau a ganiatawyd.

Targed: Darparu man agored cyhoeddus ar gyfradd sy'n fwy na 25% yn is na'r gofyniad safonol (fel y nodir yn y CCA)

Sbardun: Darparu man agored cyhoeddus ar gyfradd sy'n fwy na 35% yn is na'r gofyniad safonol (fel y nodir yn y CCA)

Blwyddyn	M² o Fan Agored a Ddarparwyd
2013 - 14	
2014 - 15	
2015 - 16	
2016 - 17	
2017 - 18	
2018 - 19	60,904
2019 - 20	14,700
2020 - 21	10,220
2021 - 22	0
2022 - 23	4180
2023 - 24	0
2024 - 25	4,630
Cyfanswm (ha)	94,634

Sylwadau

Mae gwahanol safonau o fan agored, yn seiliedig ar eu math. Er symrlwydd, defnyddiwyd y safonau mannau chwarae anffurfiol sy'n gofyn am ddarparu 5.5m² y person. Yn seiliedig ar gyfradd feddiannaeth gyfartalog o 2.2 o bobl fesul aelwyd (a dybir yng Nghlanllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio'r Cyngor, a fabwysiadwyd yn 2013), mae hyn yn cyfateb i ofyniad o 12.1m² fesul annedd o fan agored anffurfiol.

Mae'r CCA yn ei gwneud yn ofynnol darparu man agored ar gyfer safleoedd o 33 o anheddau neu fwy. Mae angen cyfraniadau ariannol tuag at ddarpariaeth oddi ar y safle ar gyfer safleoedd o 10 neu fwy o anheddau. Nid yw'r dangosydd monitro yn dadansoddi gwahanol fathau o fan agored ac mae hyn yn cael ei ystyried ar y cyd â'r Adolygiad Cynllun.

Yn ystod cyfnod monitro AMB blwyddyn 12, rhoddwyd caniatâd ar gyfer 3 datblygiad preswyl a oedd yn gofyn am ddarpariaeth man agored, gan ychwanegu 4,630m² o ddarpariaeth.

Yn ogystal, roedd yn ofynnol i safle arall ddarparu cyfraniad ariannol o £92,976 ar gyfer darparu man agored oddi ar y safle.

Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygu sy'n gysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd (E)

Dangosydd 1 y CDLI	Targed	Sbardun
<i>Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer datblygu cyflogaeth ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ardaloedd porthladd a nodwyd yn Blackbridge, hen Safle Ffatri Dewhirst a'r Parrog Wdig</i>	<i>100% erbyn diwedd cyfnod y Cynllun</i>	<i>50% heb ganiatâd cynllunio yn yr Adolygiad Cynllun (2017).</i>
Sylwadau Mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i gyrraedd gan nad oes unrhyw gynigion cyflogaeth wedi cael caniatâd cynllunio ar unrhyw un o'r safleoedd. <i>Blackbridge</i> – mae'r safle hwn yn eiddo i Egnedol a gynigiodd gyfleuster biomas a phrosiectau cysylltiedig ar gyfer y safle a ddyrannwyd a'r tir y tu hwnt. Cyrhaeddodd y cynnig hwn y cam ymgeisio ac fe'i dosbarthwyd fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ond cafodd ei wrthod gan Weinidogion Cymru ym mis Mehefin 2018. <i>Safle Ffatri Dewhirst</i> – ni chafwyd unrhyw geisiadau am ddatblygu cyflogaeth ar y safle hwn hyd yma. Rhoddwyd caniatâd cynllunio am gais llety preswyl arbenigol i bobl hŷn ym mis Awst 2022. <i>Parrog Wdig</i> – ni chafwyd unrhyw geisiadau am ddatblygu cyflogaeth ar y safle hwn hyd yma. Cymeradwywyd cais am newid defnydd i ganiatáu defnyddio'r safle ar gyfer arosiadau dros nos mewn cartrefi modur a cherbydau gwersylla yn ddiweddar (ond yn ystod cyfnod monitro AMB13). Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r defnydd o safleoedd cyflogaeth strategol. Mae adolygiad o'r dyraniadau yn digwydd ar y cyd â pharatoi CDLI 2.		

<i>Dangosydd 2 y CDLI:</i>	<i>Targed:</i>	<i>Sbardun:</i>
<i>Cynnydd tuag at gyflawni cynlluniau trafnidiaeth a ddiogelwyd</i>	<i>Y cyfan wedi'i gyflawni erbyn 2021</i>	<i>Os nad oes cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer prosiect erbyn Adolygiad y Cynllun (2017)</i>

Sylwadau

Cafodd y rhestr o gynlluniau trafnidiaeth a ddiogelwyd ei hadolygu'n gynhwysfawr yn ystod paratoi'r fersiwn Adneuo cyntaf o CDLI 2 yn 2020 a chafodd ei hadolygu ymhellach ar gyfer Cynllun Adnau 2, CDLI 2 yn 2024. Roedd nifer y cynlluniau a ddiogelwyd yn sylweddol lai ar gyfer Cynllun Adnau 2, CDLI 2 a bellach mae'n cynnwys dim ond 4 cynllun, un yn ymwneud â gwella ffordd a llwybr troed ym Mhenfro a 3 chynllun cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus mewn lleoliadau yn Hwlfordd ac Aberdaugleddau.

	Cynllun	Diweddariad	Cynnydd
1.	A40 Llanddewi Felfre i Benblewin	Mae'r cynllun wedi'i gwblhau ac mae'r ffordd wedi agor ar ôl dyddiad diwedd AMB 12. (Awst 2025)	
2.	Gwella'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr	Heb ei weithredu na'i ddwyn ymlaen i CDLI 2.	
3.	Rhwydwaith Dosbarthu'r Gogledd – Cyswllt Bulford Road	Wedi'i gwblhau	
4.	Prosiect Adfywio Cymunedol Penfro Camau 1 a 2	Heb ei weithredu na'i ddwyn ymlaen i CDLI 2.	
5.	Gwella mynediad Blackbridge a Ffordd Osgoi Waterston	Heb ei weithredu na'i ddwyn ymlaen i CDLI 2.	
6.	Llwybr Strategol y De – A477 Gwella coridor Mynegbost Nash i'r Safle Ynni	Wedi'i weithredu i raddau helaeth. Un elfen heb ei weithredu wedi'i ddwyn ymlaen i CDLI2 (Gwella Well Hill)	
7.	Canolbwynt Bysiau Abergwaun	Wedi'i gwblhau.	
8.	Cyfnewidfa Bysiau/Trenau Gorsaf Drenau Wdig	Wedi'i gwblhau	
9.	Cyfnewidfa Bysiau/Trenau Aberdaugleddau	Heb ei gweithredu. Wedi'i dwyn ymlaen i CDLI2.	
10.	Cyfnewidfa Bysiau/Trenau Doc Penfro	Wedi'i gweithredu'n rhannol. Nid yw'r elfennau sy'n weddill wedi'u dwyn ymlaen i CDLI 2.	
11.	Gwella Gorsaf Drenau Clunderwen	Wedi'i gwblhau.	
12.	Parcio a Theithio Dinbych-y-pysgod	Heb ei weithredu na'i ddwyn ymlaen i CDLI 2.	
13.	B4318 Adlinio Cil-maen	Wedi'i weithredu'n rhannol. Nid yw'r elfennau sy'n weddill (cysylltiadau maes parcio a cherddwyr) wedi'u dwyn ymlaen i CDLI2.	
14.	B4320 Adlinio Cil-maen	Heb ei weithredu na'i ddwyn ymlaen i CDLI 2.	

	Cynllun	Diweddariad	Cynnydd
15.	Cyswllt 'Simneiau' Stryd Fawr yr A40 i West Street yr A487, Abergwaun	Wedi'i gwblhau.	
16.	Llwybr Cyd-ddefnyddio Hwlfordd i Arberth.	Wedi'i weithredu'n rhannol. Nid yw'r elfen sy'n weddill wedi'i dwyn ymlaen i CDLI 2.	
17.	Prosiect Canol Tref Cynaliadwy Hwlfordd	Mae hyn wedi'i ddisodli gan gynlluniau mwy diweddar gyda dau gynnig cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u cynnwys yn CDLI2. Mae'r maes parcio aml-lawr wedi'i ddymchwel a dechreuwyd adeiladu maes parcio yn ei le a gorsaf fysiau yng nghyfnod monitro AMB 12.	

Amcan Strategol: Cefnogi datblygu rôl unigryw trefi Sir Benfro, yn enwedig o fewn Hyb Aberdaugleddau (F) ac adfywio canol trefi a chynnal a gwella'r economi wledig a threfol (G)

Dangosydd 1: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i Bolisiau SP 4, SP 14, GN 12, GN 14

Targed: 0

Sbardun: Cymeradwywyd mwy na 4 cais yn groes i un polisi dros 4 blynedd

Blwyddyn	SP 4	SP 14	GN 12	GN 14
2013 - 14	0	0	0	0
2014 - 15	0	0	0	0
2015 - 16	0	0	0	0
2016 - 17	0	0	2	0
2017 - 18	0	0	1	0
2018 - 19	0	0	0	0
2019 - 20	0	0	0	0
2020 - 21	0	0	0	0
2021 - 22	0	0	3	0
2022 - 23	0	0	2	0
2023 - 24	0	0	0	0
2024 - 25	0	0	1	0
Cyfanswm (ha)	0	0	9	0

Dangosydd 5: Newid presenoldeb Defnyddiau A1 mewn Ffryntiadau Manwerthu Cynradd

Targed: Mae o leiaf 66% o'r ffryntiad llinol yn Ddosbarth Defnydd A1

Sbardun: Llai na'r Targed

Blwyddyn	Canolfannau Llai na'r Targed			
2013 - 14	Abergwaun	Arberth	Penfro	Doc Penfro
2014 - 15	Abergwaun	Hwlfordd	Arberth	Penfro
2015 - 16	Abergwaun	Arberth	Penfro	
2016 - 17	Abergwaun	Arberth	Penfro	
2017 - 18	Abergwaun	Arberth	Penfro	
2018 - 19	Abergwaun	Arberth	Penfro	
2019 - 20	Abergwaun	Arberth	Penfro	
2020 - 21	Abergwaun	Arberth	Penfro	
2021 - 22	Abergwaun	Arberth	Penfro	
2022 - 23	Abergwaun	Arberth	Penfro	
2023 - 24	Abergwaun	Arberth	Penfro	
2024 - 25	Dim Arolwg			

<i>Dangosydd 6: Canran yr unedau gwag llawr gwaelod ym mhob Canol Tref</i>	<i>Targed: Cyfraddau gwacter uwch na chyfartaledd y DU</i>	<i>Sbardun: Lefelau gwacter 5% yn uwch na tharged y DU</i>					
	<i>Cyfartaledd y DU</i>	Hwlfordd %	Doc Penfro %	Aber-daugleddau %	Penfro %	Abergwaun %	Arberth %
Blwyddyn							
2013 - 14	13.90%	9	10	14	9	10	4
2014 - 15	13.20%	17	15	21	6	9	2
2015 - 16	12.50%	18	19	18	7	16	2
2016 - 17	12.70%	25	22	20	12	15	6
2017 - 18	12.20%	17	26	23	10	20	6
2018 - 19	12.40%	17	25	19	9	17	9
2019 - 20	12.40%	21	24	22	15	19	11
2020 - 21	13.70%	25	24	29	19	22	9
2021 - 22	14.10%	25	24	29	19	22	9
2022 - 23	13.80%	21	19	30	15	17	5
2023 - 24	16.90%	25	19	21	20	17	3
2024 - 25	13.80%	Dim arolwg	Dim arolwg	Dim arolwg	Dim arolwg	Dim arolwg	Dim arolwg

Sylwadau

Mae Polisiâu SP4 *Hyrwyddo Datblygu Manwerthu*, SP 14 *Trefi Hyb* a GN 14 *Datblygu Mawr Ar Gyrion y Dref* wedi bod yn perfformio'n dda drwy gydol oes y CDLL. Mae Polisi GN 12 *Datblygu Canol Trefi* wedi cyrraedd y sbardun ar gyfer adolygiad ar sawl achlysur ers 2013. Mae'r mater yn gysylltiedig â'r diffiniad o Ffryntiad Manwerthu Cynradd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddwy ran o dair o'r ffryntiad fod yn ddefnydd A1. Mae'r canlyniadau ar gyfer Dangosydd X yn dangos yr oedd tri o'r Ffryntiadau Cynradd – Abergwaun, Arberth a Phenfro islaw'r gofynion trothwy o ddechrau cyfnod y Cynllun, heb unrhyw gydymffurfio hyd yn hyn. Er i Hwlfordd a Doc Penfro syrthio'n is na'r trothwy am gyfnod byr, fe wnaeth y ddwy adfer yn gyflym.

Mae'r Arolygon Manwerthu blynyddol yn dangos bod y mwyafrif o Ganol Trefi yn Sir Benfro, yn debyg i lawer ledled y DU, yn cael trafferth gyda chyfraddau gwacter uchel a gwanhau defnyddiau manwerthu craidd A1. Mewn ymgais i daro'n ôl, lansiwyd Rhaglen Trawsnewid Trefi ym mis Ionawr 2020 i fynd i'r afael â dirywiad canol trefi. Mae'r Canolfannau Cymwys yn cynnwys Abergwaun, Hwlfordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ym mhob un o'r trefi ar y cyd â'r rhaglen. Mae'r cyfraddau gwacter ar gyfer pob tref, ac eithrio Arberth yn parhau i fod yn llawer uwch na chyfartaledd y DU. Mae'r diffiniad o Ganol Trefi a Ffryntiadau Manwerthu Cynradd ac Eilaidd yn cael ei ystyried yn llawn wrth baratoi CDLL2.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi dangosydd craidd ar gyfer CDLlau, sef swm y datblygu manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir yng Nghanol Trefi, wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygu mawr a ganiateir. Mae'r Cyngor wedi dehongli hyn i gwmpasu cynigion sy'n cynnwys Defnyddiau A1, A2 ac A3.

Ni chynhaliwyd arolwg manwerthu yn ystod cyfnod monitro AMB12 gan fod blaenoriaethu bwrw ymlaen â CDLI 2.

Dangosydd 2: (Craidd) Swm y datblygu manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir yng nghanol trefi fel % o'r holl ddatblygu mawr a ganiateir (TAN 4)

100% (ffigur i eithrio cynlluniau a ddyrennir y tu allan i ganol trefi)

